# Pwyllgor Diwylliant , y Gymraeg a Chwaraeon

## Cofnodion (CWLS(2) 04-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher, 8 Mawrth 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00am – 12:00 pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, Senedd

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Rosemary Butler (Cadeirydd) | Gorllewin Casnewydd |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Denise Idris Jones | Conwy |
| Laura Anne Jones | Dwyrain De Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Alun Pugh (Gweinidog) | Gorllewin Clwyd |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Margaret Evans<br>Gwilym Evans | Cyfarwyddwr dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon<br>Cyfarwyddwr Gweithredol dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon |

#### Gwasanaeth Pwyllgor

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Julia Annand | Clerc y Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

### Adran y Gyfraith

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| O Gwyn Griffiths | Ymgynghorydd Cyfreithiol |

### Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Anne Thomas | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |
| Neil Cox | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

### Eitem 1: Cyflwyno, Ymddiheuriadau, Dirprwyon, a Datgan Buddiant

1.1 Gofynnodd Clerc y Pwyllgor am enwebu Cadeirydd dros dro yn absenoldeb y Cadeirydd

1.2 Cymerodd Val Lloyd y Gadair

1.3 Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

### Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Papurau: CWLS2 03-06 (min)

2.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion byr y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2006.

### Gweithredu

- Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r papurau gwaith ynghylch y Bwrdd Diwylliant ar gael i'r Aelodau'n fuan ac y byddai'r cofnodion i'r Bwrdd Diwylliant ar y Rhyngrwyd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 23 Mawrth;

### Eitem 3: Craffu ar y Polisi Chwaraeon

Papurau: CWLS2 04-06 (p1)

3.1 Cymerodd Rosemary Butler y Gadair.

3.2 Cyflwynodd y Gweinidog ei bapur.

### Gweithredu

Y Gweinidog

- Wedi cadarnhau bod Cynllun Gweithredu y fenter ‘Dringo’n Uwch’ yn cael ei gyhoeddi yn nes ymlaen yn y gwanwyn;
- I ddarparu papur ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol i ddiffinio chwaraeon;
- I gyhoeddi papur ar ddatblygu’r polisi chwaraeon yn sgil y trosglwyddo o’r Cyngor Chwaraeon, ac ar atebolrwydd, gyda golwg arbennig ar y Pwyllgor
- I ddarparu papur ar ymwneud llywodraeth leol â chwaraeon;

## Eitem 4: Adolygu Cyngor y Celfyddydau

Papur: CWLS2 04-06(p.2)

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei bapur.

### Gweithredu

4.2 Cytunwyd:

- Y ceid un adolygiad hollgynhwysol gan banel
- Y byddai’r Aelodau’n cynnig enwau i’r Gweinidog ar gyfer aelodaeth o’r Panel
- Y byddai’r Aelodau’n trafod yr adolygiad ac aelodaeth y panel â’i gilydd ac â’r Gweinidog, oddi allan i’r Pwyllgor
- Y byddai’r Gweinidog yn cyflwyno’r telerau diwygiedig ar gyfer yr adolygiad i’w cadarnhau yn y cyfarfod ar 23 Mawrth

4.3 Byddai’r Gweinidog:

- Yn cyhoeddi’n fuan y trefniadau trosglwyddol ynghylch Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru.

## Eitem 5: Papurau Newydd Saesneg yng Nghymru

Papur: CWLS2 04-06(p.3)

5.1 Cyflwynodd Anne Thomas y papur.

**Gweithredu**

- Byddai'r adroddiad ar gyfer trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Mawrth yn cael ei baratoi ar sail y drafodaeth yn y cyfarfod, gan gylchredeg ymlaen llaw i'r Aelodau unrhyw faterion newydd i'w cytuno
- Dylid pwysleisio pwysigrwydd newyddion lleol yn yr adroddiad
- Byddai'r Gwasanaeth Pwyllgor yn gwirio bod y llythyrau oddi wrth Keith Dye wedi'u dosbarthu i bob Aelod o'r Pwyllgor

**GPYA**
**Mawrth 2006**